

.....
**CYDWEITHIO I FYND I'R AFAEL Â
PHERYGLON TROSEDDAU BWYD**
.....

Canllawiau ar gyfer y diwydiant bwyd ar gydweithio
â'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd



CYNNWYS

Cyflwyniad	2
Beth yw'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd?	3
Ein gwaith	4
Beth yw'r peryglon a achosir gan droseddau bwyd?	7
Mynd i'r afael â throseddau bwyd: Rhannu'r un nod?	8
● Sut allwn ni gefnogi'r diwydiant?	8
● Sut allwch chi ein cefnogi?	9
Gofalu am eich gwybodaeth	11
Cysylltu â ni	12
● Rhannu gwybodaeth	12
● Angen siarad â ni?	12
Atodiad A: Siarter Diwydiant yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd	13
Atodiad B: Gofyniad Gwybodaeth yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd	14

CYFLWYNIAD



Ers ymuno â'r ASB yn 2015, mae wedi bod yn fraint arwain yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. Mae datblygu swyddogaeth gwybodaeth (*intelligence*) droseddol a all ddiogelu defnyddwyr a'r diwydiant rhag anonestrwydd difrifol o fewn y cadwyni cyflenwi bwyd yn dasg heriol iawn, ond hefyd yn un sy'n talu ar ei chanfed.

Drwy gydol y cyfnod hwnnw, cefais fy nharo gan angerdd, proffesiynoldeb ac ymroddiad yr holl bobl y cwrddais â nhw ar bob lefel ar draws y diwydiant bwyd. Gall defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig (DU) fod yn falch o'r nifer enfawr o bobl dda sy'n gweithio'n galed i sicrhau cynhyrchion diogel, dilys o'r ansawdd uchaf.

Mae gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant bwyd yn hanfodol er mwyn galluogi'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd i ymateb i droseddau bwyd. Wedi'r cyfan, mae gan y diwydiant bwyd a'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd ddiddordeb cyffredin mewn sicrhau na gyflawnir unrhyw droseddau difrifol o fewn cadwyni cyflenwi bwyd y DU, ac nad oes croeso iddynt.

Mae creu diwylliant sy'n rhoi hyder i bawb rannu amheumon mewn perthynas â throseddu, boed fawr neu fach, yn hanfodol. O ran rhoi gwybod am amheumon, gall y diwydiant bwyd helpu drwy hyrwyddo pwysigrwydd moesegol a masnachol y weithred hon, tu mewn neu du allan i'w busnes eu hunain. Bydd gweithio â'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, p'un ai drwy rannu pryderon twyll penodol neu drwy gydweithio ar ffyrdd newydd o leihau'r manau rydym yn agored i drosedd, yn helpu sector bwyd y DU i barhau i fod yn ddiogel ac yn economaidd lewyrchus. Mae hyn o fudd i fusnesau ac i ddefnyddwyr.

Rwy'n falch iawn o gyflwyno'r canllawiau hyn ar gydweithio â'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. Mae'n egluro ein rôl yn y frwydr yn erbyn troseddau bwyd, sut y gallwn gefnogi'r diwydiant, a sut all y diwydiant ein cefnogi ni yn ei dro. Dyma'r cam cyntaf i adeiladu sgwrs ystyriol ddwyffordd rhyngom ni a'r diwydiant bwyd, diod a bwyd anifeiliaid. Rwy'n hyderus y bydd y berthynas hon yn tyfu ac yn aeddfedu dros amser, er mwyn ehangu gwydnwch y DU a'i hymateb i droseddau bwyd o bob math.

Andy Morling

Pennaeth Troseddau Bwyd

BETH YW'R UNED GENEDLAETHOL TROSEDDAU BWYD?

Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn uned annibynnol o fewn yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Yr Uned yw'r adnodd gorfodi cyfraith cenedlaethol cyntaf, a'r unig un, sy'n ymroi i ddiogelu defnyddwyr a'r diwydiant bwyd cyfreithlon rhag anonestrwydd difrifol o fewn cadwyni cyflenwi bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn nodi peryglon troseddol difrifol i fwyd a diod y DU, gan ffocysu ein hadnoddau yn y manau cywir, a gweithio â'r partneriaid cywir i sicrhau'r canlyniadau gorau.

Ein gweledigaeth yw sicrhau nad oes troseddau difrifol o fewn cadwyni cyflenwi bwyd y DU, ac nad oes croeso iddynt. Ein nod yw sicrhau bod defnyddwyr, y llywodraeth a'r diwydiant yn ein gweld fel adnodd rhagweithiol, arloesol a phroffesiynol, ac yn ased i'r ymdrech i orfodi cyfraith gyffredinol yn y DU.

Yn y cyd-destun hwn, trosedd bwyd yw anonestrwydd wrth gynhyrchu neu gyflenwi bwyd, sydd un ai'n gymhleth neu'n arwain at niwed difrifol i ddefnyddwyr, busnesau neu fudd y cyhoedd yn gyffredinol. Drwy weithio ag eraill, mae'r Uned yn ceisio lleihau troseddau bwyd, a lleihau pryder defnyddwyr am y broblem hon.

EIN GWAITH

Er mwyn darparu ymateb cynhwysfawr i beryglon troseddol cymhleth ac aml-ddimensiwn, caiff ein gwaith ei lywio gan y themâu bras a nodir yn Strategaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol y Llywodraeth.

Maent fel a ganlyn:

ATAL

Gellir mynd i'r afael â pheryglon troseddau bwyd drwy atal troseddwr rhag troseddu, neu rhag dod yn droseddwr yn y lle cyntaf. Mae'r elfen hon o'n gweithgarwch atal troseddau felly wedi'i ffocysu ar droseddwr, gan ein bod yn amau bod cysylltiad rhwng diffyg cydymffurfio â chyfraith bwyd ar lefel isel ac anonestrwydd difrifol.

DIOGELU

Gellir hefyd trechu tueddiadau troseddu drwy gyfrwng mesurau diogelu. Cyfeirir at y rhain weithiau fel mesurau 'caledu targedau'. Mae sicrhau bod amgylcheddau cynhyrchu, gweithgynhyrchu a manwerthu bwyd yn rhai anodd i'r troseddwr weithredu ynddynt yn elfen allweddol o unrhyw ddull holistig tuag at atal troseddau. Mae helpu i addysgu busnesau bwyd o ran sut i ddeall peryglon troseddau bwyd yn well, a sut i roi mesurau atal ar waith er mwyn lleihau cyfleoedd i droseddu, yn un enghraifft.

PARATOI

Mae'r elfen hon yn canolbwyntio ar werth strategol buddsoddi mewn cynyddu capasiti a gallu, yma yn y DU ac mewn gwledydd sydd newydd ddechrau datblygu cyfreithiau gorfodi er mwyn ymateb i droseddau bwyd. Gall hyn fod ar sawl ffurf, gan gynnwys rhannu arferion da neu fuddsoddi mewn pobl, sgiliau a thechnoleg. Rydym yn agored i niwed os nad ydym yn buddsoddi digon yn ein capasiti a'n gallu i sicrhau ein bod yn gyfredol â throseddwr, neu fod un cam ar y blaen hyd yn oed.

ERLID

Gellir atal bygythiadau hefyd drwy erlid a tharfu ar weithgarwch troseddol penodol gyda'r holl adnoddau sydd ar gael i ni a'n partneriaid. Mae gweithgarwch erlid yn faes ffocws penodol i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. Er y gellir tarfu'n llwyddiannus drwy fesurau cyfiawnder troseddol, yn aml gellir creu effaith ehangach drwy ddefnyddio mesurau atal cyfreithlon a moesegol nad ydynt yn fesurau cyfiawnder troseddol.

Mae'r tabl isod yn nodi'r canlyniadau yr ydym ni'n disgwyl eu gweld, a pha gamau yr ydym ni'n bwriadu eu cymryd i gyflawni hyn:

Lleihau troseddau bwyd drwy:	● gasglu a defnyddio gwybodaeth troseddau bwyd er mwyn mynd ag ymholiadau yn eu blaen
	● gweithredu a chefnogi camau a gymerir gan gyrff gorfodi cyfraith eraill, megis awdurdodau lleol neu wasanaeth yr heddlu.
	● arwain a chefnogi ymyriadau atal, rhwystro a tharfu troseddau bwyd ('dylanwadu' ar y cyd)
	● gwella canlyniadau cyfiawnder troseddol o ymchwiliadau troseddau bwyd ar gyfer defnyddwyr a busnesau bwyd sydd wedi dioddef o achos troseddau bwyd.
Lleihau pryder ymysg defnyddwyr ynghylch troseddau bwyd, drwy:	● ddarparu asesiadau rheolaidd sy'n dangos ein dealltwriaeth o beryglon troseddau bwyd yn y Deyrnas Unedig
	● sicrhau bod bygythiadau'n cael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar y perygl mwyaf o niwed i ddefnyddwyr, y diwydiant a budd ehangach y cyhoedd.
	● sefydlu a chadw proffil cyhoeddus uchel ar gyfer materion sy'n ymwneud â throseddau bwyd
	● dangos arweiniad wrth ymateb i droseddau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

SUT MAE'R UNED GENEDLAETHOL TROSEDDAU BWYD WEDI'I STRWYTHURO?

Mae'r uned yn cynnwys dwy elfen weithredol sydd wedi'u huno gan un nod, sef gweithio ag eraill i leihau trosedd bwyd.

- Mae ein tîm gwybodaeth (*intelligence*) yn:
 - cynnal a datblygu dealltwriaeth strategol yr uned o beryglon troseddau bwyd i ddefnyddwyr a buddiannau eraill
 - rheoli llif gwybodaeth (*information*) i mewn ac allan o'r uned – drwy sicrhau un llwybr i mewn ac allan ar gyfer gwybodaeth (*intelligence*) trosedd bwyd
 - asesu'r wybodaeth a dderbynnir yn seiliedig ar y perygl i ddefnyddwyr a sut y mae'n perthyn o safbwynt strategol
 - rheoli gwybodaeth a ddarperir i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd gan aelodau'r cyhoedd a ffynnonellau o fewn y diwydiant bwyd yn gyfrinachol

- Mae ein tîm gweithredol yn gyfrifol am:

- ddatblygu gweithrediadau drwy gasglu gwybodaeth i hwyluso gweithgarwch a lleihau'r peryglon a nodir
- arwain gweithrediadau sydd â 'dylanwad' mewn perthynas â throsteddau bwyd
- gweithredu, cyd-gysylltu a chefnogi ymchwiliadau troseddol dan arweiniad eraill
- rheoli a datblygu perthnasau ag awdurdodau lleol, adrannau eraill y llywodraeth a gwasanaeth yr heddlu ar lefel ranbarthol i wella gwaith casglu gwybodaeth a rhyngweithio

Rydym yn gweithio'n agos ag ystod o bartneriaid gorfodi cyfraith, gan gynnwys ein huned gyfatebol yn Safonau Bwyd yr Alban. Rydym hefyd yn gweithio â phartneriaid yn y diwydiant, gan gydnabod bod busnesau cyfreithlon yn rhannu ein nod i atal troseddu a dwyn troseddwr i gyfiawnder.

BETH YW'R PERYGLON A ACHOSIR GAN DROSEDDAU BWYD?

Mae diwydiant bwyd a diod y DU gwerth £200 biliwn¹, ac fel unrhyw ddiwydiant mawr, mae'n agored i ystod eang o weithgarwch troseddol.

Gall effaith troseddau bwyd fod yn niweidiol iawn i ddefnyddwyr, busnesau bwyd unigol, yr economi ac enw da'r DU ar draws y byd.

Mae bygythiadau ar nifer o lefelau: o enghreifftiau o anonestrywydd ar hap gan unigolion sydd am ddrwgweithredu ('rogues'), hyd at weithgarwch twyllodrus wedi'i drefnu gan grwpiau sy'n twyllo defnyddwyr neu yn eu peryglu yn fwriadol. Mae'r rhwystrau rhag ennill tir yn yr economi bwyd yn gwneud bwyd yn ddewis heriol ar gyfer y rheiny sy'n gwneud gyrfa o droseddu, ond mae'r bygythiad o fwy o droseddu cyfundrefnol yn un real.

Mae troseddau bwyd – a'r canfyddiad ohonynt – yn creu pwysau ariannol o fewn y sector. Gall y rhain effeithio'n negyddol ar y farchnad a thanseilio busnesau cyfreithlon. Mae'r diwydiant bwyd, diod ac arlwygo yn cyfrannu at 11% o economi'r DU. Bydd colli hyder yng ngallu cadwyni bwyd y DU i wrthsefyll troseddu yn niweidio enw rhagorol ein diwydiant bwyd, yma yn y DU a thramor, gyda chanlyniadau economaidd negyddol yn yr hirdymor.

Mae'r DU yn elwa ar fwyd a diod sydd gyda'r mwyaf diogel a dilys yn y byd. Serch hynny, mae yna fygythiadau, a po fwyaf a wneir i'w deall, po fwyaf y gellir ei wneud i atal niwed i ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr.

Mae amcangyfrif maint ac effaith troseddau bwyd yn her. Mae twyll, drwy ddiffiniad, yn weithgarwch cudd, a gall y bobl sy'n rhan ohono fod yn fedrus wrth guddio eu natur droseddol. Mae'r her hon yn fwy o achos diffyg hysbysu am droseddu yn y maes hwn.

Cydnabyddir bod gan droseddau bwyd nodweddion penodol a fydd bob amser yn cynnig heriau wrth geisio eu canfod, ac wrth geisio deall ac asesu maint a natur y broblem yn llawn. Yn gyffredinol, nid oes llawer o 'bwyntiau dihangfa' mewn trosedd bwyd, sydd bron yn unigryw mewn troseddu difrifol, ac o'r rhain caiff troseddu ei ganfod. Mae hyn yn golygu bod canfod troseddu drwy orfodi cyfraith yn heriol iawn.

Dyma pam ei bod mor bwysig i waith yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd bod partneriaid yn y diwydiant yn rhoi gwybod am droseddu. Mae gwyliadwriaeth a hyder y diwydiant i nodi a rhannu pryderon â ni ynghylch camweddu tybiedig o fewn cadwyni cyflenwi bwyd yn hanfodol wrth nodi a mynd i'r afael â throseddau sy'n effeithio ar fusnesau cyfreithlon y DU.

¹ Ystadegau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/315418/foodpocketbook-2013update-29may14.pdf

MYND I'R AFAEL Â THROSEDDAU BWYD: RHANNU'R UN NOD

I'r diwydiant a defnyddwyr fel ei gilydd, mae'n hanfodol yr eir i'r afael â throsteddau bwyd er mwyn diogelu hygredd bwyd y DU.

Ar gyfer busnesau yn benodol, mae mynd i'r afael â throsteddau bwyd yn sicrhau bod ansawdd cynnyrch yn bodloni disgwyliadau'r defnyddwyr, sydd yn ei dro yn helpu i gynnal enw da brand, bod cystadleuaeth yn parhau i fod yn deg ac y caiff targedau elw eu gwireddu.

Rydym yn gweithio tuag at yr un amcanion. Rydym eisiau sicrhau bod:

- diwydiant bwyd y DU yn cynnal ei enw da am ragori ac am ddarparu bwyd a diod sydd ymysg y cynnyrch mwyaf diogel ac o'r ansawdd gorau yn y byd;
- bod y DU yn parhau i fod yn gystadleuol yn y farchnad fyd-eang ac yn parhau i greu elw.

Dyna pam bod yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn gweithio â'r diwydiant i fynd i'r afael â throsteddau bwyd.

Mae angen i'r berthynas waith hon fod yn fuddiol i bawb fel y gall pawb weld y canlyniadau gwerthfawr a ddaw wrth atal troseddau bwyd. Hoffem ddatblygu perthnasau ystyrlon â busnesau bwyd bach a mawr sy'n cefnogi ein hethos, yn defnyddio dulliau moesegol, yn gweithredu gweithdrefnau diogelwch a dilysrwydd bwyd priodol (lle bo'n berthnasol), ac nad ydynt yn achosi unrhyw berygl amlwg i'n henw da drwy gysylltiad.

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwahaniaethau mewn barn, a byddwn yn dangos dealltwriaeth o flaenoriaethau a chyfyngiadau ein partneriaid a'n cefnogwyr. Rydym yn gofyn bod ein partneriaid a'n cefnogwyr yn defnyddio'r un dull wrth ymdrin â ni.

SUT ALLWN NI GEFNOGI'R DIWYDIANT?

Drwy ddatblygu a rhannu gwybodaeth am y peryglon y mae'r DU yn eu hwynebu

Mae gwella ein dealltwriaeth o droseddau bwyd yn hanfodol er mwyn gallu datblygu atebion i oresgyn y broblem. Er y caiff diogelwch gweithredol ei ystyried bob tro, rydym yn ymroi i rannu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o droseddau bwyd fel ein bod yn gallu cefnogi ein partneriaid i gynyddu eu gallu i ddatblygu atebion. Rydym yn gobeithio y bydd yn helpu partneriaid yn y diwydiant i lunio'r gwasanaethau maent yn eu darparu a'r cynnyrch maent yn ei werthu.

Bydd gwybodaeth sy'n berthnasol i droseddau bwyd yn cael ei rhannu drwy ein hasesiadau; caiff y rhain eu rhoi un ai ar-lein neu eu rhannu drwy ddefnyddio rhestr o gyfeiriadau e-bost, yn dibynnu ar ba mor sensitif yw'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu. Ar gyfer pryderon sy'n sensitif o ran amser, i gyrraedd cynulleidfawr yn gyflym, byddwn hefyd yn defnyddio cysylltiadau masnachol

perthnasol drwy'r diwydiant. Lle byddai pryderon o werth arbennig i bartneriaid penodol yn y diwydiant, byddwn yn ymdrechu i wneud cysylltiad uniongyrchol.

Rydym yn cynhyrchu asesiad o beryglon troseddau bwyd i'r DU bob blwyddyn – Asesiad Strategol Blynyddol yr Uned Troseddau Bwyd – ac yn sicrhau bod hwn ar gael i bawb. Fel rhan o ddatblygu'r cynnyrch hwn, rydym yn ymgysylltu'n helaeth â'r diwydiant er mwyn sicrhau ein bod yn casglu eich profiadau a'ch pryderon.

Yn ogystal ag Asesiad Strategol Blynyddol, rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiadau bob chwarter sy'n rhoi trosolwg o'r prif dueddiadau a'r bylchau mewn gwybodaeth a nodwyd dros y tri mis diwethaf, mewn perthynas ag anonestrwydd yng nghadwyni cyflenwi bwyd y DU. Caiff hwn ei rannu â phartneriaid gorfodi cyfraith a phartneriaid yn y diwydiant.

Mae Gofyniad Gwybodaeth yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn amlinellau'r mathau o faterion yr hoffent dderbyn gwybodaeth yn eu cylch. Mae derbyn gwybodaeth gan y nifer a'r ystod ehangaf posibl o ffynonellau yn sicrhau bod ein gwybodaeth (*intelligence*) wedi'i llywio gan y data gorau posibl. Mae'r Gofyniad i'w weld yn Atodiad B.

Drwy gynyddu gwaith ymgysylltu a gweithio â phartneriaid

Hoffem sefydlu perthnasau hirdymor â busnesau bwyd unigol, a fydd, dros amser, yn datblygu i gynyddu eu heffaith ar fynd i'r afael â throseddau bwyd.

Drwy ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd y diwydiant i arwain ein gweithgarwch, gallwn sicrhau bod ein gwaith yn ystyried cymhlethdodau a chräffterau'r sector neu'r gadwyn gyflenwi sy'n cael ei hymchwilio. Bydd y dull hwn yn helpu'r Uned i erlid troseddwyr bwyd a chefnogi'r diwydiant i leihau gwendidau'r system neu'r broses sy'n rhoi cyfleoedd i droseddau. Gall ychydig o waith atal arwain at ganlyniadau mawr.

Drwy hyn oll, byddwn yn hyrwyddo ac yn hwyluso gweithio mewn partneriaeth lle bynnag y mae'n bosibl er mwyn helpu i ddiogelu enw da a llwyddiant y sector bwyd yn y DU.

SUT ALLWCH CHI EIN CEFNOGI?

.....

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys ystod eang o faterion, a byddwn yn croesawu cynigion ar sut y gall eich sefydliad neu fusnes bwyd gydweithio â ni orau.

Mae'r hyn y gall yr Uned ei wneud i gefnogi'r diwydiant yn dibynnu'n fawr ar lefel y gefnogaeth a gawn i gynyddu ein dealltwriaeth o droseddau bwyd sy'n effeithio ar y DU, a'n dull o fynd i'r afael â hyn.

Rhoi gwybod i ni am droseddau bwyd

Os yw'ch busnes yn destun trosedd bwyd, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth yr Uned er mwyn i ni nodi'r rheiny sy'n gyfrifol a'u dwyn i gyfrif. Os nad ydym yn gwybod am y trosedd, ni allwn weithredu arni. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd arfer cyfrinachedd wrth ymdrin ag adroddiadau o'r fath gan fusnesau bwyd. Er y byddwn yn ymdrechu ar bob adeg i sicrhau bod ein hymholiadau i droseddwyr bwyd yn amharu arnynt cymaint â phosibl, byddwn yn gwneud hyn mewn modd sy'n parchu buddiannau masnachol y busnes neu'r unigolyn sy'n dioddef.

Rhoi gwybod i ni pan fo gennych amheuon ehangach

Byddem hefyd yn hoffi cael gwybod am unrhyw wybodaeth arall a all fod gan bartneriaid yn y diwydiant mewn perthynas ag anonestrwydd tybiedig o fewn y gadwyn cyflenwi bwyd. Gall hyn amrywio o frocer yn gwerthu nwydd am bris nad yw'n gwneud synnwyr yn ariannol, hyd at niferoedd cynyddol o gynwysyddion neu labeli cynhyrchion wedi'u brandio sydd ar goll neu wedi'u cofnodi fel 'wedi torri'. Gallwch roi gwybod am unrhyw amheuon yn gyfrinachol i'r Uned, waeth pa mor amwys neu anghyflawn ydynt yn eich tyb chi.

Os oes gan eich sefydliad wybodaeth a all fod yn berthnasol i'n gwaith ni, dylech ei rhannu â ni. Gallwn eich sicrhau y bydd unrhyw wybodaeth a rennir â ni yn cael ei thrin yn broffesiynol ar bob adeg, yn gyfrinachol ac y bydd yn cael ei diogelu rhag ei datgelu'n amhriodol tu mewn a thu allan i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Ymgorffori mecanweithiau atal twyll yn eich model busnes

Er mwyn canfod pryderon mewn perthynas â throseddau bwyd posibl, mae'n hanfodol bod busnesau bwyd yn deall sut fyddai ymddygiad troseddol yn edrych iddyn nhw. Mae hyn yn eich galluogi i ganfod ac ymateb i beryglon a risgiau a nodwyd drwy gyflwyno strategaeth gwydnwch twyll.

Mae'r Sefydliad Diogelwch, Gonestrwydd a Diogelu Bwyd (TiFSiP) yn cyhoeddi Canllawiau Arfer Da ar Wydnwch Twyll ar gyfer y sectorau bwyd a diod. Bydd y cyhoeddiad hwn yn helpu partneriaid i adolygu a gwella eu protocolau presennol, ac yn ei dro bydd yn cefnogi'r broses o roi gwybod am bryderon i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.

Hyrwyddo'ch cefnogaeth i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd a'r adnodd Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol

Ym mis Mehefin 2016, lanswyd Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol: adnodd diogel ar gyfer y rheiny sy'n gweithio o fewn ac o amgylch y diwydiant bwyd er mwyn rhoi gwybod am amheuon o droseddau bwyd. Mae hyrwyddo'r adnodd hwn, gan ac o fewn eich sefydliad, yn dangos eich cefnogaeth i'r ymgyrch gwrth-drosedd, ac yn codi ymwybyddiaeth ar draws y diwydiant.

Cydweithio â ni er mwyn mynd i'r afael â throseddu a'r meysydd sydd agored i droseddu

Er mwyn cyflawni canlyniadau gwrth-drosedd cadarnhaol i ddefnyddwyr a busnesau bwyd, mae'n amlwg bod angen i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd gael cefnogaeth gan sbectrwm eang o randdeiliaid ar draws y DU a thramor. Bydd derbyn cymorth gan ei phartneriaid a'i chefnogwyr yn y sectorau preifat a chyhoeddus yn ein galluogi ni i wneud mwy na fyddai'n bosibl ar ein pennau ein hunain. Er enghraifft, byddem yn agored i unigolion o'r diwydiant ymuno â ni am gyfnodau tymor byr neu hir dymor, er mwyn ein helpu ni i ddeall rhai o agweddau technegol y diwydiant bwyd yn well.

GOFALU AM EICH GWYBODAETH

Er mwyn bod yn adnodd gwrth-drosedd effeithiol, rydym yn gweithio mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch gweithredol ac yn golygu y caiff pob ffynhonnell wybodaeth ei diogelu'n briodol.

Mae'r dull hwn yn meithrin hyder ein partneriaid gorfodi cyfraith, busnesau bwyd a ffynonellau gwybodaeth eraill, ac yn galluogi'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd i weithio tuag at ganlyniadau cryfach a mwy trawiadol drwy ddiogelu defnyddwyr a busnesau rhag gweithgarwch troseddol.

Rydym yn croesawu unrhyw wybodaeth sydd gennych ar droseddau bwyd, ac nid oes unrhyw rwystrau cyfreithiol i rannu'r wybodaeth gyffredinol hon â ni. Pan fo'r wybodaeth yn cynnwys 'data personol'², mae Deddf Diogelu Data 1998 yn eich caniatáu i rannu'r wybodaeth â ni at ddibenion atal neu ganfod troseddau, neu ddal neu erlyn troseddwyd.

Gall yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd fod yn destun rhwymedigaeth cyfreithiol o dro i dro i ddatgelu gwybodaeth mewn sefyllfaoedd penodol lle, er enghraifft, mae erlyniad yn digwydd neu lle mae'n derbyn cais dan ddeddfwriaeth benodol (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, a Deddf Diogelu Data 1998 yn bennaf).

Wrth ymdrin â cheisiadau o'r fath, rydym yn sicrhau y cymerir pob cam angenrheidiol er mwyn diogelu gwybodaeth sensitif yn briodol. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, geisio am imiwnedd lles y cyhoedd rhag datgelu neu wneud cais rhag datgelu dan yr eithriadau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth berthnasol:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth: S43 (cyfrinach masnach/rhagfarn i fuddiannau masnachol), S30 (ymchwiliadau ac erlyniadau a gynhelir gan awdurdodau cyhoeddus) ac S31 (gorfodi cyfraith)
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004: 12(5) (e) (effaith andwyol ar gyfrinachedd gwybodaeth masnachol neu ddiwydiannol fel y darperir yn ôl y gyfraith i ddiogelu buddiannau economaidd cyfreithlon)

Os nad oes eithriad sy'n berthnasol, ac mae'n rhaid i ni ryddhau'r wybodaeth, byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgynghori â chi cyn gynted â phosibl ynghylch priodolrwydd ac effaith gwneud hynny.

² Fel y nodir yn Deddf Diogelu Data 1998

CYSYLLTU Â NI

Mae sawl ffordd i chi gysylltu â ni

RHANNU GWYBODAETH

Os yw'ch busnes wedi bod yn destun troseddau bwyd, neu os hoffech rannu amheuon neu bryderon am droseddau bwyd â ni, cysylltwch â ni:

0207 276 8787

foodcrime@foodstandards.gsi.gov.uk

Mae staff ar gael yn ein huned rhwng 9am a 5pm. Byddwn yn ymdrin ag unrhyw ymholiad a dderbynnir y tu allan i'r oriau hyn y diwrnod gwaith canlynol.

Os ydych chi'n meddwl y byddwch yn rhannu gwybodaeth â ni yn rheolaidd, efallai y byddwch yn dymuno cytuno i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth â'r Uned, er mwyn ffurfioli ein perthynas. Cysylltwch â ni os hoffech dderbyn copi o'r Templed Cytundeb Rhannu Gwybodaeth.

Er mwyn trafod hyn ymhellach, neu unrhyw bryderon sydd gennych am rannu gwybodaeth, cysylltwch â ni a bydd aelod o'r tîm yn hapus i'ch cynghori.

ANGEN SIARAD Â NI?

Er mwyn trafod cyfleoedd i weithio'n agosach â ni, neu er mwyn gwneud cais i gael mynediad at yr asesiadau gwybodaeth rydym yn eu cynhyrchu, cysylltwch â rheolwr gwybodaeth yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd drwy ffonio **0207 276 8255** neu anfon e-bost at foodcrime@foodstandards.gsi.gov.uk

ATODIAD A: SIARTER DIWYDIANT YR UNED GENEDLAETHOL TROSEDDAU BWYD

Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn ymroddedig i weithio â'r diwydiant bwyd a diod er mwyn sicrhau bod defnyddwyr a busnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi'u diogelu rhag anonestrwydd difrifol o fewn cadwyni cyflenwi bwyd.

Mae'r ymrwymïadau canlynol yn sail i'r modd byddwn yn gweithio â chi i wneud hyn:

1. Byddwn yn trin yr holl wybodaeth a ddarperir gennych chi â phroffesiynoldeb a chyfrinachedd ar bob adeg, a bydd wedi'i diogelu rhag ei datgelu'n amhriodol
2. Rydym yn bwriadu i'n perthynas â chi fod yn fuddiol i chi ac i ni. Byddwn bob tro yn ystyried awgrymiadau ar sut y gallwn ddatblygu ein perthynas
3. Byddwn yn cydnabod ac yn croesawu gwahaniaethau mewn barn, a byddwn yn dangos dealltwriaeth a pharch i'ch blaenoriaethau a'ch cyfyngiadau
4. Byddwn yn rhannu ein dealltwriaeth o natur a maint y drosedd bwyd â chi, er mwyn eich cefnogi wrth adeiladau a chynyddu gwydnwch i fygythiadau o'r fath
5. Byddwn yn gweithio â busnesau bwyd i ymchwilio i honiadau o droseddau bwyd ac er mwyn lleihau cyfleoedd troseddu
6. Byddwn yn eich cefnogi wrth ddiogelu enw da a gonestrwydd eich brand drwy sicrhau bod marchnad y DU yn parhau i fod yn gystadleuol ac yn broffidiol

ATODIAD B: GOFYNIAD RHANNU GWYBODAETH YR UNED

SWYDDOGOL



Gofyniad Rhannu Gwybodaeth Ebrill 2016 – Mawrth 2017

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu prif ofynion gwybodaeth yr Uned Troseddau Bwyd Cenedlaethol, gan amlgu'r meysydd y mae'r Uned yn gobeithio casglu gwybodaeth amdanynt.

Bydd hyn yn ein helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch gweithredol, gwella dealltwriaeth strategol y DU o droseddau bwyd, a helpu i sicrhau bod asesiadau gwybodaeth yn y dyfodol yn gywir, yn gynhwysfawr a bod ganddynt ddiagon o dystiolaeth.

Gyferbyn mae ein prif ofyniad, wedi'i gyflwyno mewn modd syml a hygyrch. Yna mae'r tudalennau canlynol yn darparu'r gofynion gwybodaeth yn fwy manwl o ran ein prif feysydd blaenoriaeth, ar ôl yr adran sy'n archwilio'n themâu cyffredinol. Mae'r rhain wedi'u seilio ar brif categorïau trosedd bwyd. Mae Asesiad Strategol Blyneddol yr Uned Troseddau Bwyd 2016, a oedd yn llywio'r categorïau hyn, i'w weld [yma](#).

Beth yw trosedd bwyd?

Anonstrwydd mewn perthynas â chynhyrchu neu gyflenwi bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid sydd un ai'n gymhleth neu'n debygol o arwain at niwed difrifol i ddefnyddwyr, busnesau neu fudd y cyhoedd yn gyffredinol.

Beth allwch chi ei rannu â ni am droseddau bwyd?

Gall hyn fod mewn perthynas â:

- Achosion lle'r ydych chi'n gwybod bod trosedd bwyd wedi'i chyflawni
- Gwybodaeth sy'n awgrymu trosedd bwyd
- Manylion ynghylch sut mae'r diwydiant bwyd yn gweithio a all achosi iddo fod yn agored i droseddau bwyd

Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd eisiau gwybod yn arbennig am:

- Pwy sy'n troseddu
- Sut maen nhw'n ei wneud, pryd a pham
- Pa fathau o fwyd, diod neu fwyd anifeiliaid sy'n rhan o'r trosedd

Gall hyn fod yn seiliedig ar:

- Wybodaeth sydd gennych chi neu'ch sefydliad
- Arbenigedd sydd gennych chi neu'ch cydweithwyr yn y maes hwn a all fod yn ddefnyddiol i ni
- Awgrymiadau o bwy arall gall yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd siarad â nhw er mwyn dysgu mwy am hyn

Cysylltwch â ni drwy:

Anfon e-bost at foodcrime@foodstandards.gsi.gov.uk

Ffonio 020 7276 8787

Ymweld â www.food.gov.uk/foodcrime – cliciwch ar 'Cymraeg'

1

GOFYNION GWYBODAETH CYFFREDINOL

Gofynion cyffredinol / themâu cyffredin	Sut mae'r Gofyniad Gwybodaeth yn cefnogi'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd
Mae nifer o gwestiynau yr hoffem ganfod yr atebion iddynt. Nid yw'r rhain yn ymwneud â throseddau bwyd penodol, ond yn hytrach maent yn ymwneud â'r broblem a berir gan droseddau bwyd yn fwy eang.	Mae sefydlu'r Gofyniad hwn yn golygu y gall partneriaid fod yn glir ynghylch y math o wybodaeth sydd ei hangen arnom.
I ba raddau mae troseddu cyfundrefnol o fewn economi'r Deyrnas Unedig yn broblem? Mae hyn yn cynnwys lle mae'r grwpiau perthnasol wedi'u cysylltu â throseddau o fathau eraill hefyd.	Bydd cefnogaeth gan bartneriaid wrth ateb y Gofyniad hwn yn sicrhau y gall yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd:
Sut all yr wybodaeth sydd gan bartneriaid yn y diwydiant , yr wybodaeth yr ydym ni'n gobeithio y byddant yn ei rhannu â ni, wella'r darlun o'r hyn sy'n digwydd?	<ul style="list-style-type: none"> • adlewyrchu'n glir mewnwelediad a gweithgarwch partneriaid mewn perthynas â throseddau bwyd. • gwneud penderfyniadau gwybodus am feysydd y mae gofyn eu blaenoriaethu ym maes troseddau bwyd yn seiliedig ar gronfa gadarn a chynhwysfawr o wybodaeth, drwy adeiladu ar yr hyn a gasglwyd yn Aseiad Strategol Blynyddol o Troseddau Bwyd 2016. • defnyddio'r mewnwelediad hwn i lywio gweithgarwch a fydd yn canfod ac yn atal troseddau bwyd sy'n effeithio ar ddefnyddwyr, busnesau a buddiannau ehangach yn y Deyrnas Unedig.
Faint o arian a gollir i droseddau bwyd yn y Deyrnas Unedig, gan gwsmeriaid a busnesau?	
Beth yw maint y broblem a berir gan droseddau bwyd ym marn nifer o fusnesau a defnyddwyr?	
Sut all newidiadau i'r tirlun cyfreithiol a rheoleiddiol yn y dyfodol effeithio ar beryglon troseddau bwyd?	
Rydym hefyd eisiau deall pam bod troseddwyr bwyd yn troseddu – ar wahân i geisio gwneud arian.	

GOFYNION GWYBODAETH PENODOL

Gofynion penodol
 Gall y blychau canlynol fod yn berthnasol i bob un o feysydd allweddol troseddau bwyd. Maent yn cynnwys y cwestiynau pwysig am y troseddau bwyd hyn er mwyn i ni allu eu deall yn well, ac i sicrhau bod ein hymateb iddynt wedi'i lywio'n briodol.

Cynhyrchion gwastraff yn mynd i'r gadwyn fwyd	Camarwain o ran tarddiad, ansawdd neu fanteision
Rydym eisiau gwybod am gynhyrchion sy'n fod i gael eu taflu a ddefnyddir at ddiben anawdurdodedig arall yn y gadwyn fwyd.	Rydym ni eisiau gwybod pa brif nodweddion bwyd a gaiff eu cam-gyfleu amlaf gan fusnesau bwyd twyllodrus.
Ble mae hyn yn digwydd? Pwy sy'n gyfrifol, a gyda pha gynhyrchion y mae'n digwydd yn gyffredinol?	Gall hyn gynnwys tarddiad y bwyd, neu unrhyw honiadau sy'n nodi ansawdd. Fe allai fod yn Enw Tarddiad Gwarchoddedig, neu set getunedig o nodweddion cynnyrch (megis reis basmati neu olew olewydd 'extra virgin'). Fe allai hefyd fod yn fater o ddatgan, neu awgrymu, bod cynnyrch yn ddiogel i'w fwyta, pan nad yw hynny'n wir.
Sut mae troseddwyr yn cuddio'r gweithgarwch hwn ac yn gwneud i'r cynnyrch (a'i darddiadau) edrych yn ddilys?	Ymhellach i hyn, pa gamarwain sy'n digwydd mewn perthynas â dogfennau a ddefnyddir i adnabod anifeiliaid ac i gofnodi symudiadau a thriniaethau milfeddygol cyn iddynt gael eu lladd?
Pa fathau o leoliadau y mae troseddwyr yn eu defnyddio i storio, prosesu, trosglwyddo neu werthu'r cynnyrch dan sylw? Pwy sy'n ei brynu?	Pwy sy'n rhan o'r gweithgarwch hwn? Ble maent yn gweithredu yn y gadwyn fwyd? Sut maent yn gweithio?
Difwyno	Rydym ni hefyd eisiau gwybod pa dechnegau a ddefnyddir gan droseddwyr sy'n defnyddio dogfennau ffug i dwyllo.
Rydym ni angen deall yn well pa mor rheolaidd y caiff cynhyrchion bwyd eu difwyno'n bwrpasol er budd economaidd.	Sut maen nhw'n caffael neu'n cynhyrchu'r dogfennau a ddefnyddir ganddynt? Sut maen nhw'n sicrhau bod y dogfennau a'r cynhyrchion sy'n cyd-fynd â nhw yn edrych yn ddilys pan gânt eu harolygu?
Pa gynhyrchion a gaiff eu heffeithio fwyaf, a gyda beth cânt eu difwyno'n gyffredinol?	
Beth yw pwrrpas y difwyno? I arbed arian? Cadw cynnyrch yn ffres am gyfnod hirach? I gynhyrchu cynnyrch ffug?	
Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo cynhyrchion wedi'u difwyno yn berylus i ddefnyddwyr – er enghraifft, alcohol anniogel mewn gwirodydd, cnau heb eu datgan mewn bwyd, neu gynhwysion cudd mewn atchwanegiadau bwyd.	

GOFYNION GWYBODAETH PENODOL

Amnewid cynhwysion

Rydym eisiau gwybod am arferion **lle caiff un cynhwysyn ei amnewid am un arall** mewn cynhyrchion bwyd a diod, er mwyn lleihau'r costau neu pan fo prinder cyflenwad rhai cynhyrchion.

Gyda pha brif gynhwysion mae hyn yn digwydd? A yw rhai **cynhyrchion yn fwy tebygol o gael eu hamnewid** o ganlyniad i newid i'r cyflenwad, neu'r galw am, gynhyrchion neu eu cynhwysion?

Pa gynhwysion sydd **hawsaf eu hamnewid** heb eu canfod?

Sut mae troseddwy'r bwyd yn cyflawni'r gweithgarwch hwn?

Fel difwyno, mae presenoldeb **alergenau** heb eu datgan yn parhau i fod yn bryder, ynghyd â defnyddio **mathau gwahanol o gig, pysgod a chynnyrch llaeth** i'r hyn a nodir ar y cynnyrch.

Dwyn cynnyrch

Gellir canfod cynhyrchion bwyd a da byw yn anghyfreithlon drwy amryw ffyrdd. Gall hyn fod drwy **botsio, dwyn da byw** megis defaid, drwy **gynaeafu pysgod cregyn yn anghyfreithlon** neu drwy sicrhau bod cynnyrch yn cael ei anfon drwy ddefnyddio enw cwmni cyfreithlon arall (sy'n sicrhau mai nhw fydd yn gorfod talu'r bil).

Pa mor gyffredin yw'r gweithgarwch hwn, a **pha gynhyrchion** gaiff eu targedu'n gyffredinol? Sut mae'r cynnyrch yn **cyrraedd defnyddwyr**?

Pa mor gyffredin yw'r sgiliau sydd eu hangen i **greu gwefan ffug** fel cwmni credadwy, ac yna ei defnyddio i droseddu?

Prosesu cig yn anghyfreithlon

Rydym eisiau derbyn gwybodaeth am bobl sy'n **lladd anifeiliaid yn anghyfreithlon** neu sy'n **prosesu cig yn anghyfreithlon**.

Sut mae'r bobl hyn yn **dod o hyd i gwsmeriaid** ar gyfer eu cynhyrchion?

Sut mae'r gweithredwyr hyn yn gwneud i'w cynnyrch ymddangos yn ddilys? Ydyn nhw'n canolbwyntio ar gynhyrchion sy'n anoddach eu holrhain?

Sut mae'r gweithredwyr hyn yn ceisio **osgoi cael eu dal**?

Camarwain oes silff

Maes arall o drosedd bwyd yw ymestyn neu newid dyddiadau oes ar fwyd a diod yn anghyfreithlon.

Pa dechnegau a ddefnyddir i **newid labeli**? A oes technegau i wneud cynhyrchion **ymddangos yn fwy ffres** nag ydynt?

Pwy sy'n rhan o'r gweithgarwch hwn, a ble caiff y cynhyrchion hyn eu **gwerthu i ddefnyddwyr**?

Ymateb i'r Gofyniad Gwybodaeth

Os ydych yn canfod unrhyw wybodaeth berthnasol, rhoch wybod i ni drwy'r manylion cyswllt a nodwyd ar dudalen flaen y ddogfen hon.

Os hoffech drafod rhannu gwybodaeth â'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, neu siarad am wybodaeth benodol yn uniongyrchol, gallwch ein ffonio neu drefnu ein bod ni'n eich ffonio chi drwy'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd.